



Cylchlythyr #18 SCHTh Gogledd Cymru – 21 April 2023
OPCC North Wales Newsletter #18 – 21 Ebrill 2023

CHTh yn creu Panel Dioddefwyr i sicrhau bod llais y dioddefwr yn cael ei glywed

Yn ddiweddar gwiredodd Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) addewid allweddol a wnaeth pan gafodd ei ethol i'r rôl drwy gynnal cyfarfod cyntaf Panel Dioddefwyr Gogledd Cymru. Cyfarfu'r panel yng Nghanolfan Busnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno i glywed oddi wrth ddioddefwyr troseddau am eu profiadau o blismona a'r system gyfiawnder troseddol.

Yn ei fanifesto a'r Cynllun Heddlu a Throsedd dywedodd Andy Dunbobbin y byddai'n " Sefydlu Panel Dioddefwyr sy'n rhoi cyfle i ddioddefwyr a goroeswyr ddweud wrthym beth y gellir ei wneud yn well a dal y CHTh, yr heddlu a'r asiantaethau i gyfrif."

Mae'r panel yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Wayne Jones, ac yn bresennol mae staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) a Chanolfan Cymorth Dioddefwyr (VHC). Gwasanaeth yw VHC wedi ei gomisiynu gan CHTh i gynnig cyngor a chefnogaeth i ddioddefwyr troseddau ac mae'n helpu gweinyddu rhedeg y panel a gweithio gyda dioddefwyr er mwyn rhannu eu syniadau. [Darllenwch fwy yma.](#)



PCC creates Victims' Panel to ensure victim's voice is heard

North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin recently fulfilled a key pledge made when he was elected to the role with the first meeting of a newly created Victims' Panel for North Wales. The panel met at Conwy Business Centre in Llandudno Junction to hear from victims of crime about their experience of policing and the criminal justice system.

In his manifesto and subsequent Police and Crime Plan, Andy Dunbobbin said he would "set up a Victims' Panel giving an opportunity for victims and survivors to tell us what can be done better and hold the PCC, the police and wider agencies to account."

The panel is chaired by the Deputy Police and Crime Commissioner, Wayne Jones, and attended by staff from the Office of the Police and Crime Commissioner (OPCC), and the Victim Help Centre (VHC). The VHC is a service commissioned by the PCC to offer advice and support to victims of crime and they are helping to administer the running of the panel and working with victims to share their thoughts. [Read more here.](#)

Busnesau yng yn cael eu hannog i archebu lle mewn Cynhadledd Caethwasiaeth fodern

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad rhad ac am ddim i berchnogion busnes a sefydliadau sector gyhoeddus yng Ngogledd Cymru ar sut i adnabod Caethwasiaeth Fodern a'r peryglon y mae yn ei osod ar yr economi leol. Yr enw arno yw 'Ar Agor ar Gyfer Busnes: Edrych ar Gaethwasiaeth Fodern yn economi Gogledd Cymru', bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar 22 Mai yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn fygythiad parhaus i gymunedau yng Ngogledd Cymru a rhaid i fusnesau fod yn ymwybodol o sut y gall hyn gael effaith arnynt a sut i adnabod yr arwyddion. Yn y digwyddiad, bydd SCHTh yn dod â lleisiau allweddol a sefydliadau at ei gilydd i drafod camau syml y gall pob perchennog busnes gymryd i ddiogelu eu hunain, eu staff a'u cwmnïau. [Darllenwch fwy yma.](#)



Business owners urged to book place at landmark Modern Slavery Conference

The OPCC for North Wales is hosting a free event for business owners and public sector organisations in North Wales on how to identify Modern Slavery and the risks it poses to the local economy. Named 'Open for Business:

Looking at Modern Slavery in the post-pandemic North Wales economy', the event will take place on May 22 at Conwy Business Centre, Llandudno Junction.

Modern Slavery is a continuing threat to communities in North Wales and businesses need to be aware of how it can impact them and how to spot the signs. At the event, the OPCC will bring together key voices and organisations to discuss simple steps that every business owner can take to protect themselves, their staff and their operations. [Read more here.](#)

Datganiad gan y CHTH ar Ddiwrnod Stephen Lawrence (22.04.23)

"Mae'n bwysig heddiw ein bod yn cofio am fywyd a gwaddol Stephen Lawrence, ddeg mlynedd ar hugain ers ei lofruddiaeth. Hoffwn dalu teyrnged arbennig i'w deulu a'i ffrindiau, sydd wedi gweithio'n ddiflino dros y tair degawd diwethaf yn eu brwydr am gyfiawnder, cydnabyddiaeth a newid. Mae eu dewrder a'u penderfyniad wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

"Roedd marwolaeth Stephen yn 1993, a'r digwyddiadau ddilynodd, yn drobwynt wrth amlygu hiliaeth sefydliadol o fewn y gwasanaeth heddlu. Ers hynny, mae llawer wedi newid ac mae gwell dealltwriaeth, cydnabyddiaeth a gweithredu ynghylch ymdrin â hiliaeth a rhagfarn. Fodd bynnag, mae achosion diweddar yn Heddlu'r Met a manau eraill yn dangos fod y gwaith hwn eto i'w gwblhau. Mae gennym lawer mwy i'w wneud er mwyn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn gyfartal mewn plismona ac yn ein cymdeithas." [Darllenwch y datganiad yn llawn yma.](#)



DIWRNOD STEPHEN LAWRENCE 2023 | STEPHEN LAWRENCE DAY 2023

Statement from the PCC on Stephen Lawrence Day (22.04.23)

"It is important that we remember Stephen Lawrence's life and legacy on the 30th anniversary of his murder. At this moment, I would like to pay special tribute to his family and friends, who have worked tirelessly through the past three decades in their fight for justice, recognition and change. Their bravery and determination have made a real difference.

"Stephen's death in 1993, and the events that followed, were a watershed moment in highlighting institutional racism within the police service. Since then, much has changed and there is now greater understanding, acknowledgment and action around tackling racism and prejudice. However, recent cases in the Met and elsewhere show us that this work is far from finished. We have much more to do to ensure that all people are treated equally in policing and in our society." [Read the statement in full here.](#)

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?

Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddarau eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?

Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:

<https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd>

You can read our privacy policy here:

<https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy>